

Dathlu'r Nadolig

Gweddï i gloi

Dduw annwyl,
anfonaist dy Fab i'r byd
fel baban bychan i fod gyda ni.
Diolch i ti, am y cariad
a ddangosodd Mair a Joseff tuag at Iesu,
am yr angylion yn canu clodydd Duw,
am y bugeiliaid yn rhyfeddu,
am haelioni'r doethion
a'n cyffro ninnau wrth i'r Nadolig nesáu.
Diolch i ti dy fod gyda ni yn awr,
wrth i ni fynd allan i'r byd,
i ddathlu a rhannu'r newyddion am eni Iesu.

Amen.

Gweddïau'r Nadolig

1 Y daith

Dduw pob taith ac antur,
wrth i ni gychwyn ar ein taith Adfent,
bydd gyda ni, fel yr oeddet gyda Mair a Joseff.
Rho i ni ddewrder pan fydd y ffordd yn serth,
nerth pan fyddwn wedi blino,
a ffrindiau da i deithio gyda ni.

Amen.

2 Cyrraedd Bethlehem

Dduw annwyl,
roedd Mair a Joseff wedi blino, blino, blino.
Dylfyfu gên.
Roeddent wedi teithio milltiroedd, milltiroedd, milltiroedd.
Meimio cerdded.
Roedd amynt angen gorffwys, gorffwys, gorffwys,
Rhoi pen i orffwys ar y breichiau.
a chael bwyd, bwyd, bwyd.
Meimio bwyta.
Diolch i ti am eu cadw'n ddiogel, ddiogel, ddiogel,
Lapio eich breichiau o'ch cwmpas.
ac am dy gariad, cariad, cariad.
Gwneud arwydd calon gyda'r ddwy law.

Amen.

3 Y geni

Dduw annwyl,
gweddïwn dros gwningod a enir mewn tyllau ac adar a enir mewn nythod;
dros ŵyn a enir mewn caeau – boed bendith ar eu genedigaethau i gyd.
Diolchwn am y baban Iesu, a aned ar wair y stabl.
Wrth i ni ddathlu ei eni, boed i ni dyfu i'th garu di yn fwy.

Amen.

4 Bugeiliaid

Dduw cariadus,
gweddïwn fel dy ddefaid
dros bawb sy'n ennill eu bywoliaeth trwy ofalu am anifeiliaid;
BAA!
dros y rhai sy'n gweithio yn yr awyr agored pan fydd yn boeth a phan fydd yn oer;
BAA!
dros y rhai y mae eu gwaith yn beryglus,
BAA!
a gweddïwn dros y naill a'r llall,
wrth i ni ddysgu gyda'n gilydd am enedigaerh dy Fab, Iesu.

Amen.

5 Angylion

Arglwydd,
pan fydd arnom ofn, anfon angylion i'n calonogi.
Pan fyddwn yn drist, anfon angylion gyda newyddion da.
Pan fyddwn yn hapus, gad i ni ganu caneuon dathlu.
A phan fyddwn yn gweld eraill mewn angen, helpa ni i fod yn angylion iddynt.
Yn enw Iesu.
Amen.

6 Ymweliad y bugeiliaid

Dduw tragwyddol,
gweddiwn dros y rhai sydd heddiw ar frys;
Pawb i redeg yn eu hunfan.
dros bawb sy'n rhedeg i weld rhywbeth cyffrous;
Pawb i redeg yn eu hunfan.
dros y rhai sy'n rhedeg oddi wrth rywbeth dychrynlyd;
Pawb i redeg yn eu hunfan.
a thros bawb sy'n teimlo bod ganddynt ormod i'w wneud.
Pawb i redeg yn eu hunfan.
Boed iddynt gael gwybod am dy heddwch, dy obaith a'th llawenydd.
Amen.

7 Y teulu sanctaidd

Arglwydd Iesu bychan, a aned yn y gwair,
daethost â llawenydd i ni i gyd ar y dydd Nadolig cyntaf.
Gweddiwn dros bob teulu, y cyfoethog a'r tlawd,
dros y rhai sydd â digon, a'r rhai sydd angen mwy.
Dad nefol, gwylia dros bob un,
a bendithia ni yma yn awr wrth i ni groesawu dy Fab.
Amen.

8 Y doethion

Deuwn atat, Arglwydd Iesu, gyda'n hawydd i roi a rhannu.
Byddem yn dod â thrysor o fwyd i'r newynog;
i'r unig, y rhodd werthfawr o gyfeillgarwch;
i'r trist, hadau llawenydd;
ac i'r holl bobl, y Nadolig hwn, y rhodd o obaith.
Amen.